




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol




Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cronfa Bensiynau Clwyd

Polisi Cynllun Talu Gwirfoddol

Hydref 2023



Tudalen Cynnwys

Crynodeb.....	3
Cyflwyniad.....	3
Nodau ac amcanion	3
Cefndir.....	4
Cynllun Talu Gorfodol	5
Cynllun Talu Gwirfoddol	6
Esiamplelau o Lwfans Blynyddol Taprog	7
Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd	8
Aelodau sy'n dynesu at ymddeoliad	9
Risgiau Allweddol.....	9
Costau	10
Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori	10
Rhagor o Wybodaeth.....	10

Crynodeb

Mae'r Cynllun Talu yn broses sy'n galluogi rhan neu holl dâl treth lwfans blynyddol yr aelod i gael ei dalu gan Gronfa Bensiynau Clwyd, yn gyfnewid am ostyngiad yn eu buddion pensiwn. Mae dau fath o Gynllun Talu, Gorfodol a Gwirfoddol, ac mae'r ddogfen hon yn trafod y ddau.

Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Lwfans Blynyddol yn 2006 a dyma'r swm y gall gwerth cyffredinol buddion pensiwn aelod gynyddu mewn Cyfnod Mewnbwn Pensiwn (ar hyn o bryd yn unioni â'r flwyddyn dreth), cyn achosi tâl treth ychwanegol posibl.

Mewn achosion penodol, mae gan aelodau hawl awtomatig, o dan Adran 237B o'r Ddeddf Cyllid 2004 i ofyn i'r Gronfa dalu'r tâl treth ar eu rhan, yn gyfnewid am ostyngiad cyfatebol i'w buddion pan maent yn gadael y cynllun¹. Caiff y gostyngiad hwn ei roi ar gyfrif pensiwn yr aelod yn y flwyddyn dreth berthnasol, a bydd yn cynyddu gyda chwyddiant nes i'r buddion gael eu talu. Gelwir hyn yn Gynllun Talu Gorfodol.

Mewn achosion eraill, gall aelodau ofyn i'r Gronfa dalu'r tâl treth, ond nid oes hawl ac nid oes rhaid i'r Gronfa gytuno. Os yw'r Gronfa yn cytuno talu'r tâl treth, bydd buddion yr aelod yn cael eu gostwng yn unol â hynny. Caiff y gostyngiad hwn ei roi ar gyfrif pensiwn yr aelod yn y flwyddyn dreth berthnasol, a bydd yn cynyddu gyda chwyddiant nes i'r buddion gael eu talu. Gelwir hyn yn Taliadau Cynllun Gwirfoddol.

Ni all aelodau ddefnyddio'r Cynllun Talu unwaith y maent yn derbyn eu buddion, er bod posib parhau ei ddefnyddio os yw aelod wedi cymryd ymddeoliad hyblyg ac yn parhau i adeiladu ar y buddion yn y Gronfa, sydd yna'n destun tâl treth Lwfans Blynyddol.

Hwn yw Polisi Cynllun Talu Gwirfoddol Cronfa Bensiwn Clwyd, a reolir gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'r Polisi yn egluro'r amgylchiadau lle bydd ceisiadau ar gyfer Cynllun Talu Gwirfoddol yn cael eu derbyn gan Gronfa Bensiynau Clwyd.

Mae'r Polisi Cynllun Talu Gwirfoddol hwn wedi ei sefydlu i ddarparu eglurder ar gyfer aelodau'r Gronfa sy'n dymuno gwneud cais ar gyfer y Cynllun Talu Gwirfoddol, ac i sicrhau cysondeb o ran dull ar draws y Gronfa. Mae'r Rheolwr Gweinyddu Pensiynau yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi yn cael ei ddilyn.

Nodau ac amcanion

Datganiad o Fwriad y Gronfa yw:

¹ Dim ond pensiwn yr aelod sy'n cael ei leihau o ganlyniad i'r Cynllun Talu Gorfodol neu'r Cynllun Talu Gwirfoddol. Ni effeithir ar fuddion eraill, gan gynnwys taliadau pensiynau dibynyddion a thaliadau marw yn y swydd.

- Cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'n holl gwsmeriaid.
- Meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg, llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig, o'r ansawdd uchaf, o fewn ein hadnoddau.
- Gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

O ran gweinyddiaeth a chyfathrebiad y Gronfa, mae gan yr Awdurdod Gweinyddu nifer o amcanion, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaeth gweinyddol i fudd-ddeiliaid y Gronfa, sy'n raenus, proffesiynol, gweithredol ac amserol, ac yn canolbwyntio ar y cwsmeriaid
- Sicrhau y telir y buddion cywir i'r bobl gywir ar yr amser iawn, ac y cesglir yr incwm cywir ganddyn nhw yn yr un modd
- Hyrwyddo'r Cynllun fel budd gwerthfawr a darparu digon o wybodaeth fel y gall aelodau wneud penderfyniadau gwybodus am eu buddion
- Cyfathrebu mewn ffordd glir a chryno

Mae bod â pholisi sy'n nodi'r amgylchiadau lle gellir derbyn cais am Gynllun Talu Gwirfoddol, yn cefnogi'r Awdurdod Gweinyddu i gyflawni'r amcanion hyn.

Cefndir

Dyma amlinelliad cryno o'r Lwfans Blynnyddol a chyfrifoldeb ei aelodau i chwilio am gyngor o ran y gofynion penodol. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi: <https://www.gov.uk/tax-on-your-private-pension/annual-allowance>

Cyflwynwyd y cysyniad Lwfans Blynnyddol yn Ebrill 2006 o dan y Ddeddf Cyllid 2004 a dyma'r swm y gall gwerth cyffredinol buddion pensiwn aelod gynyddu mewn Cyfnod Mewnbwn Pensiwn (ar hyn o bryd yn unioni â'r flwyddyn dreth), cyn bod treth yn ddyledus.

Y Lwfans Blynnyddol Safonol cyfredol ar gyfer y mwyafrif o bobl yw £60,000, (cynyddodd hyn o £40,000 i £60,000 ar 6 Ebrill 2023) ac os yw'r cynnydd yng ngwerth buddion pensiwn aelod (eu Swm Mewnbwn Pensiwn) yn y flwyddyn dreth berthnasol yn fwy na'r swm hynny, mae'n debygol y codir tâl treth. Gall aelodau'r cynllun gario unrhyw lwfans sydd heb eu defnyddio ymlaen o'r tair blynedd flaenorol er mwyn gwrthbwysu tâl treth posibl.

Y Swm Mewnbwn Pensiwn yw'r swm y mae gwerth cyffredinol buddion yr aelod wedi cynyddu rhwng dechrau a diwedd y flwyddyn dreth.

Gall y rhai sy'n ennill cyflog uchel a'r rhai gydag incwm treth sylweddol o ffynonellau eraill (gan gynnwys pensiynau mewn taliadau) fod yn destun Lwfans Blynnyddol Taprog, sy'n rhoi Lwfans Blynnyddol sy'n is na'r Lwfans Blynnyddol Safonol, ac fe all fod cyn lleied â £10,000 (Roedd hyn yn £4,000 yn flaenorol ar gyfer blwyddyn dreth Ebrill 2020 i Fawrth 2023 a

£10,000 ar gyfer blynyddoedd treth rhwng Ebrill 2016 i Fawrth 2020). Mae hyn yn effeithio unrhyw un sy'n bodloni'r **ddau** faen prawf canlynol:

- Trothwy Incwm yn £200,000 neu fwy. (£110,000 ar gyfer blynyddoedd treth rhwng Ebrill 2016 i Fawrth 2020). Trothwy Incwm yn incwm trethadwy ar ôl i gyfraniadau pensiwn gweithiwr gael eu didynnu, ac yn cynnwys incwm trethadwy o bob ffynhonnell, nid cyflog yn unig
- Incwm wedi'i Addasu yn fwy na £260,000 (£240,000 ar gyfer blynyddoedd treth 2020 i 2023 a £150,000 ar gyfer blynyddoedd treth rhwng Ebrill 2016 i Fawrth 2020). Yr Incwm wedi'i Addasu yw'r Trothwy Incwm a'r Swm Mewnbwn Pensiwn.

Os yw rhywun yn bodloni'r ddau faen prawf, caiff eu Lwfans Blynyddol unigol ei ostwng o £1 am bob £2 y mae eu Hincwm wedi'i Addasu yn fwy na £260,000. Fodd bynnag, ni all Lwfans Blynyddol Taprog aelod gael ei leihau o dan £10,000. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi: <https://www.gov.uk/guidance/pension-schemes-work-out-your-tapered-annual-allowance>

Bydd yr aelodau sydd wedi cael 'mynediad hyblyg' i'w buddion yn flaenorol, o gynllun pensiwn cyfaniadau arall, yn destun Lwfans Blynyddol Prynu Arian sy'n £10,000 ar hyn o bryd (Roedd yn £4,000 yn flaenorol ar gyfer blynyddoedd treth Ebrill 2017 i Fawrth 2023 a £10,000 ar gyfer blynyddoedd treth rhwng Ebrill 2015 i Fawrth 2017), a rhaid hysbysu Cronfa Bensiynau Clwyd os yw hyn yn gymwys gan ei fod yn lleihau'r Lwfans Blynyddol a ddefnyddir i brofi buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn yr adran 'check if you've gone above the money purchase annual allowance' ar wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi: <https://www.gov.uk/guidance/work-out-your-allowances-if-youve-flexibly-accessed-your-pension>

Bydd y dreth sy'n codi o ragori'r Lwfans Blynyddol yn cael ei godi ar raddfa ymylol treth incwm yr aelod (20%, 40% neu 45% yn llawn, neu'n rhannol yn dibynnu ar gyfanswm enillion trethadwy) ar y swm o fewnbwn pensiwn sy'n rhagori Lwfans Blynyddol yr aelod, gan ystyried unrhyw arian a gaiff ei gario ymlaen o'r lwfansau sydd heb eu defnyddio o'r blynyddoedd blaenorol. Cyfrifoldeb yr aelod yw penderfynu graddfa'r dreth a osodir.

Cynllun Talu Gorfodol

Os codir tâl treth ar aelod o ganlyniad i dorri'r Lwfans Blynyddol, mae ganddynt hawl i Gynllun Talu Gorfodol gan Gronfa Bensiynau Clwyd, os yw'r HOLL feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Bod tâl treth Lwfans Blynyddol yr aelod yn fwy na £2,000, a
- Bod gan yr aelod Swm Mewnbwn Pensiwn o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr ²sy'n fwy na'r Lwfans Blynyddol safonol (£60,000), a

² Er bod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei weinyddu gan 86 o gronfeydd ar draws Cymru a Lloegr, mae'n cael ei ystyried fel un cynllun gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi, felly, wrth asesu mewnbwn pensiwn yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rhaid i aelodau ystyried yr HOLL fuddion y maent yn eu cadw mewn cronfeydd gwahanol yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r Cynllun Pensiwn

- Bod cais di alw'n ôl ar gyfer Cynllun Talu Gorfodol yn cael ei wneud erbyn 31 Gorffennaf y flwyddyn yn dilyn yr un y codwyd y tâl treth (h.y. ar gyfer tâl treth a godwyd o flwyddyn 2022/2023 dylai'r cais am Gynllun Talu Gorfodol gael ei wneud erbyn 31 Gorffennaf 2024) neu cyn iddynt ymddeol, os yw hynny'n gynharach, ac
- Os nad yw buddiannau ymddeol llawn yr aelod o'r Gronfa yn cael eu talu eto.

Os yw aelod yn bodloni'r holl feini prawf uchod, rhaid i Gronfa Bensiynau Clwyd dalu'r dreth i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar ran yr aelod os gwneir y cais, a dylid hysbysu'r aelod o'r gostyngiad yn eu buddion o ganlyniad i hynny. Ni chaniateir i'r Gronfa godi tâl gweinyddu ar gyfer ceisiadau Cynllun Talu Gorfodol.

Nodwch nad oes angen i'r aelod ofyn i'r Gronfa dalu'r tâl treth llawn - gall yr aelod wneud cais i leihau'r swm sy'n cael ei dalu gan y Cynllun Talu Gorfodol a gwneud eu trefniadau eu hunain i dalu gweddill y tâl treth i Gyllid a Thollau ei Fawrhydi. Dylai aelodau nodi nad all eu pensiwn gael ei ostwng yn is na lefel eu Hisafswm Pensiwn Gwarantedig, felly mae'n bosibl nad all y Gronfa dalu'r tâl treth llawn os yw'r gostyngiad cyfatebol i'r buddion yn golygu y bydd y pensiwn yn gostwng islaw'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig.

O ran Cynllun Talu Gorfodol, rhaid i'r aelod ddatgan i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi y byddent yn defnyddio'r Cynllun Talu Gorfodol ar eu ffurflenni treth hunanasesu erbyn 31 Ionawr y flwyddyn yn dilyn yr un y codwyd y tâl treth, ond nid oes angen gwneud cais i'r Gronfa tan 31 Gorffennaf, chwe mis wedyn, ac mae gan y Gronfa hyd at 14 Chwefror i dalu'r dreth. Gall ddyddiad cau gwahanol ar gyfer Cynllun Talu Gorfodol fod yn gymwys os yw'r Gronfa yn hysbysu aelod o newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach. Os yw hyn yn gymwys bydd y Gronfa yn hysbysu aelod y cynllun o'r dyddiad cau diwygiedig.

Cynllun Talu Gwirfoddol

Mae'r rhestr isod yn dangos sefyllfaoedd posibl lle gall aelod ysgwyddo tâl treth, ond lle nad oes gan yr aelod hwnnw hawl i Gynllun Talu Gorfodol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall yr aelod ofyn i'r cynllun ganiatáu cais am Gynllun Talu Gwirfoddol, ond nid oes rhaid i'r cynllun gytuno. Nid yw'r rhestr hwn yn cynnwys popeth.

- Mae'r aelod yn destun Lwfans Blynyddol Taprog neu'r Lwfans Blynyddol Prynu Arian, ac mae eu Swm Mewnbwn Pensiwn yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn fwy na'u Lwfans Blynyddol Taprog/Prynu Arian, ond nid yw'n fwy na'r Lwfans Blynyddol Safonol. Gweler yr esiampl isod.
- Mae'r aelod yn destun Lwfans Blynyddol Taprog neu'r Lwfans Blynyddol Prynu Arian, ac mae eu Swm Mewnbwn Pensiwn yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn fwy na'u Lwfans Blynyddol Taprog/Prynu Arian, a'r Lwfans Blynyddol Safonol – mae hawl i Gynllun Talu Gorfodol o ran y mewnbwn sy'n uwch na'r Lwfans Blynyddol Safonol, ond nid ar gyfer y mewnbwn sydd rhwng y Lwfans Blynyddol Taprog/Prynu Arian a'r Lwfans Blynyddol Safonol. Gweler yr esiampl isod.

Llywodraeth Leol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu hystyried fel cynlluniau ar wahân gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

- Mae'r aelod yn bodloni'r holl feini prawf eraill ar gyfer gwneud cais Cynllun Talu Gorfodol, ond heb wneud cais erbyn y dyddiad cau 31 Gorffennaf (nac unrhyw ddyddiad cau diwygiedig sy'n gymwys wedi hysbysiad o newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach).
- Nid yw'r aelod wedi rhagori'r Lwfans Blynnyddol yn seiliedig ar eu buddion pensiwn yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr, ond yn ei grynsyth ar draws holl drefniadau pensiwn, maent wedi rhagori'r Lwfans Blynnyddol ac mae cyfanswm tâl treth yr aelod ar ôl cydnabod y mewnbwn o'r trefniadau eraill, yn fwy na £2,000.
- Mae gan yr aelod hawl i Gynllun Talu Gorfodol o ran mewnbwn pensiwn yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr, ond hefyd â thâl treth yn ymwneud â mewnbwn mewn trefniant pensiwn arall, ac eisiau defnyddio'r Cynllun Pensiwn Gwirfoddol o'r Gronfa er mwyn ysgwyddo hyn hefyd.
- Mae tâl treth yr aelod yn llai na £2,000.
- Os nad yw buddiannau ymddeol llawn yr aelod yn cael eu talu eto.

Nid oes cyfyngiad amser yn y ddeddfwriaeth ar gyfer gwneud cais am Gynllun Talu Gwirfoddol (os caniateir), ond dylai'r aelodau nodi, os na thelir y dreth erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn yn dilyn yr un y codwyd y tâl treth (h.y. 31 Ionawr 2024 ar gyfer tâl treth a godwyd yn y flwyddyn 2022/23) bydd llog a dirwyon am daliadau hwyr³. Nid yw llog a dirwyon taliadau hwyr yn gymwys ar gyfer taliadau treth a gaiff eu talu gan y Cynllun Talu Gorfodol, os yw'r aelod yn darparu'r hysbysiadau priodol i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi drwy'r hunanasesiad, neu fel arall, dan yr amgylchiadau hyn, mae'r aelod a'r Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ac yn unigol, yn atebol am unrhyw dreth sy'n ddyledus sydd heb ei dalu gan y Cynllun Talu Gorfodol.

Esiamplau o Lwfans Blynnyddol Taprog

- Mae Swm Mewnbwn Pensiwn aelod yn £80,000 ac maent yn destun lwfans blynnyddol taprog o £10,000. Bydd y tâl treth yn £28,000 gan dybio eu bod yn drethdalwr 40% heb unrhyw arian ar gael i'w gario ymlaen. Bydd Cynllun Talu Gorfodol yn gymwys i £8,000 o'r tâl treth (o ran y mewnbwn sy'n fwy na £60,000). Bydd angen i'r £20,000 o'r tâl treth sy'n weddill gael ei dalu'n uniongyrchol gan yr aelod i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi, oni bai bod trefniant Cynllun Talu Gwirfoddol wedi cael ei gytuno gyda'r Gronfa.
- Mae Swm Mewnbwn Pensiwn aelod yn £39,000 ac maent yn destun lwfans blynnyddol taprog o £10,000. Bydd y tâl treth yn £11,600 gan dybio eu bod yn drethdalwr 40% heb unrhyw arian ar gael i'w gario ymlaen. Nid yw hyn yn gymwys ar gyfer Cynllun Talu Gorfodol, gan fod y mewnbwn pensiwn yn llai na'r Lwfans Blynnyddol Safonol o £60,000, felly bydd angen i'r aelod dalu'n uniongyrchol i Gyllid a

³O ran Cynllun Talu Gorfodol, rhaid i'r aelod ddatgan i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi y byddent yn defnyddio'r Cynllun Talu Gorfodol ar eu ffurflenni treth hunanasesu erbyn 31 Ionawr y flwyddyn yn dilyn yr un y codwyd y tâl treth, ond nid oes angen gwneud cais i'r Cynllun tan 31 Gorffennaf, chwe mis wedyn, ac mae gan y Gronfa hyd at 14 Chwefror i dalu'r dreth.

Thollau Ei Fawrhydi, oni bai bod trefniant Cynllun Talu Gwirfoddol wedi cael ei gytuno gyda'r Gronfa

Dylid nodi mai cyfrifoldeb yr aelod yw hysbysu'r Gronfa os ydynt yn destun Lwfans Blynnyddol Taprog a'r swm treth sy'n ddyledus. Ni all y Gronfa gyfrifo hyn, gan nad oes ganddi fanylion o gyfanswm yr incwm trethadwy.

Polisi Cronfa Bensiynau Clwyd

Bydd y Gronfa yn derbyn ceisiadau ar gyfer Cynllun Talu Gwirfoddol dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae aelod yn destun Lwfans Blynnyddol Taprog neu'r Lwfans Blynnyddol Prynu Arian gyda tâl treth sy'n fwy na £2,000 o ran y mewnbwn yng Nghronfa Bensiynau Clwyd, ac os derbynir y cais di alw'n ôl erbyn 30 Tachwedd, yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth lle codwyd y mewnbwn (h.y. 30 Tachwedd 2023 ar gyfer mewnbwn yn y flwyddyn 2022/23)
- Mae aelod yn bodloni holl feini prawf ar gyfer Cynllun Talu Gorfodol, ond heb allu bodloni'r dyddiad cau 31 Gorffennaf oherwydd gwall neu esgeulustod gweinyddol gan Gronfa Bensiynau Clwyd (h.y. ni hysbyswyd yr aelod o'u mewnbwn pensiwn mewn amser ar gyfer bodloni'r dyddiad cau). Dan yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud cais ar gyfer Cynllun Talu Gwirfoddol o fewn 2 fis o dderbyn yr hysbysiad am eu mewnbwn pensiwn
- Mae aelod yn cael ei hysbysu o newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach ond nid yw'n bodloni meini prawf ar gyfer Cynllun Talu Gorfodol. Dan yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud cais ar gyfer Cynllun Talu Gwirfoddol o fewn 2 fis o dderbyn yr hysbysiad am eu mewnbwn pensiwn diwygiedig.

Ni fydd y Gronfa yn derbyn ceisiadau ar gyfer Cynllun Talu Gwirfoddol dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae tâl treth yr aelod, o ran mewnbwn pensiwn yng Nghronfa Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr yn llai na £2,000, ond maent wedi gwneud cais am Gynllun Talu Gwirfoddol gan fod cyfanswm eu tâl treth o ran mewnbwn o drefniadau eraill yn fwy na £2,000.
- Mae gan yr aelod hawl i Gynllun Talu Gorfodol o ran mewnbwn pensiwn yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr, ond hefyd wedi gofyn i'r Gronfa dalu tâl treth yn ymwneud â mewnbwn mewn trefniant pensiwn arall.
- Mae tâl treth yr aelod yn llai na £2,000
- Nid oedd yr aelod wedi bodloni'r dyddiad cau 31 Gorffennaf ar gyfer ymgeisio am Gynllun Talu Gorfodol (nac unrhyw ddyddiad cau hwyrach a allai fod yn gymwys yn ôl hysbysiad newid i Gyfnod Mewnbwn Pensiwn cynharach) ac nid oedd y methiant hwn i fodloni'r dyddiad cau wedi'i achosi gan wall nac esgeulustod gweinyddol gan Gronfa Bensiynau Clwyd.
- Mae holl fuddiannau ymddeol yr aelod wedi cael eu rhoi mewn taliad.

Bydd ceisiadau ar gyfer Cynllun Talu Gwirfoddol dan unrhyw amgylchiadau eraill yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau.

Yn dilyn derbyn cais ar gyfer Cynllun Talu Gwirfoddol, bydd buddion yr aelod yn cael eu gostwng yn ôl y swm sy'n cyfateb â'r tâl treth sy'n cael ei dalu gan y Gronfa, gan ddefnyddio'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Aelodau sy'n dynesu at ymddeoliad

Mae sefyllfaoedd lle gall aelod dorri'r lwfans blynyddol yn ystod y Cyfnod Mewnbwn Pensiwn pan maent yn ymddeol, hyd yn oed os ydynt yn ymddeol ar ddechrau'r flwyddyn dreth. Er enghraifft, os oes taliad salwch (ac nid oedd yr aelod yn bodloni'r amod salwch difrifol dan s229(4) y Ddeddf Gyllid 2004) neu gynnydd mawr mewn cyflog, bonws neu daliad gwasanaeth cyn ymddeol.

Os yw aelod yn torri'r lwfans blynyddol yn y flwyddyn dreth y maent yn derbyn eu buddiannau ymddeol terfynol, dim ond y cynllun talu gorfodol y gellir ei ddefnyddio os prosesir y cais cyn i'r buddion gael eu talu (neu "grisialu"). Fel arall bydd angen i aelodau dalu'r tâl treth yn uniongyrchol gan na fydd y Gronfa yn derbyn cais cynllun tâl gwirfoddol unwaith i'r buddiannau gael eu talu. Gall aelodau yn y sefyllfa hon ddewis talu'r tâl treth gan ddefnyddio unrhyw gyfandaliad sy'n daladwy wrth ymddeol.

Dylai aelodau sy'n ymddeol rhwng Ebrill a Hydref hefyd sicrhau eu bod yn sefydlu a oedd unrhyw doriad yn y Cyfnod Mewnbwn Pensiwn blaenorol cyn eu buddiannau terfynol, gan y byddent yn ymddeol cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Datganiad Arbedion Pensiynau. Eto, dylai unrhyw gais taliadau cynllun mewn perthynas â'r Cyfnod Mewnbwn Pensiwn blaenorol gael eu gwneud cyn i'r buddiannau gael eu crisialu. Bydd y Gronfa yn cyflwyno cyfriflen arbedion pensiwn unigol i'r aelodau gweithredol sy'n dod yn bensiynwyr yn ystod y Cyfnod Mewnbwn Pensiwn ac sydd wedi rhagori'r lwfans blynyddol safonol. Caiff hyn ei ddarparu pan fydd y buddiannau ymddeol yn cael eu hysbysu, yn hytrach nac o dan y terfynau amser arferol. Mae hyn yn rhoi amser i'r aelod benderfynu os yw'r dewis o Gynllun Talu Gorfodol yn gymwys a/neu os ydynt yn dymuno gwneud cais am Gynllun Talu Gorfodol neu Wirfoddol. Os yw aelod yn dymuno defnyddio Cynllun Talu, dylent gysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd cyn y dyddiad ymddeol, fel y gall y gostyngiad priodol gael ei gyfrifo a'i gymhwyso cyn i'r buddion gael eu talu.

Dylid nodi mai cyfrifoldeb yr aelod yw hysbysu'r Gronfa ar yr adeg hon os ydynt yn destun Lwfans Blynyddol Taprog a'r swm treth sy'n ddyledus. Ni all y Gronfa gyfrifo hyn, gan nad oes ganddi fanylion o gyfanswm yr incwm trethadwy.

Risgiau Allweddol

Amlinellir y risgiau allweddol o ran darparu'r Polisi hwn isod. Gall y rhain oll arwain at beidio â hysbysu aelod yn gywir am y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Bydd Rheolwr y Gronfa Bensiwn yn monitro'r rhain, a risgiau allweddol eraill ac yn ystyried sut i ymateb iddynt.

- Hyfforddiant annigonol neu ddealltwriaeth wael o ran swyddogaethau unigolion ar faterion y gronfa bensiynau.
- Hyfforddiant annigonol neu fethiant i gyfathrebu gofynion y Polisi hwn
- Absenoldeb yr unigolyn a enwebwyd i reoli agweddau gweithredol y Polisi, heb unrhyw un i ddirprwyo, neu fethiant yr unigolyn hwnnw i gynnal yr agweddau gweithredol yn unol â'r Polisi hwn.

Costau

Bydd holl gostau sy'n ymwneud â gweithredu'r polisi hwn yn cael ei gwneud yn uniongyrchol gan Gronfa Bensiynau Clwyd. Dylai talu'r tâl treth fod yn niwtral o ran cost ar gyfer y Gronfa, gan fod Adran Actiwari'r Llywodraeth wedi cyflwyno canllawiau ar gyfer cyfrifo'r gostyngiad i fuddion yr aelodau, a ddylai sicrhau nad yw'r Gronfa yn colli arian. Fodd bynnag, bydd y Gronfa yn ysgwyddo'r costau gweinyddu ar gyfer yr amser a dreulir yn delio â cheisiadau aelodau a thalu'r dreth sy'n ddyledus i Gyllid a Thollau Ei Fawrhdy.

Ystyriwyd codi tâl gweinyddu ar aelodau sy'n dymuno defnyddio'r Cynllun Talu Gwirfoddol, ond oherwydd y niferoedd isel a ddisgwylir i fanteisio ar y dewis, penderfynwyd peidio â chodi tâl ar hyn o bryd. Caiff hyn ei adolygu os yw'n ymddangos bod baich gweinyddol trwm i weithredu'r polisi hwn.

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cafodd y Polisi Cynllun Talu Gwirfoddol hwn ei gymeradwyo gan ddefnyddio cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo yn Hydref 2023. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n ffurfiol bob tair blynedd o leiaf, neu'n gynharach os bydd unrhyw newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Reoliadau neu Ganllawiau perthnasol eraill sydd angen eu hystyried.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y Polisi Cynllun Talu Gwirfoddol hwn neu'n gysylltiedig â'r Polisi hwn, cysylltwch â:

Karen Williams

Rheolwr Gweinyddu Pensiynau, Cronfa Bensiynau Clwyd

E-bost: karen.williams@sirymfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702963



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.